

# Y Diweddaraf am Ganolfan Ddiwylliant Conwy Hydref 2019



## Y diweddaraf am yr adeilad ac arddangosfeydd:

Mae gwaith ar safle'r Ganolfan Ddiwylliant yn mynd yn ei flaen yn gyflym iawn. Bydd pobl yn sylwi wrth basio fod y ffenestri yn eu lle a thu allan yr adeilad yn dechrau cymryd ei siâp terfynol. Mae'r gwaith tirlunio yn parhau; mae'r ystafell ddosbarth allanol wedi ei hadeiladu gan ddefnyddio cerrig o'r Hen Ysgol i greu amffitheatr ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac adrodd hanesion. Y darn cyffrous olaf o waith yw i gwblhau gardd y synhwyrâu hygyrch, sy'n cael ei datblygu gennym gyda'r grŵp lleol *Incredible Edible*.

Mae'r tîm yn cwblhau'r cyffyrddiadau olaf ar gyfer y tu mewn, a fydd yn cynnwys arddangosfeydd treftadaeth arloesol, llyfrgell newydd sbon, archifdy a chaffi.

Cysylltwch a ni:

Ffon: 01492 576089

Ebost:

[llyfrgell.conwy@conwy.gov.uk](mailto:llyfrgell.conwy@conwy.gov.uk) neu  
[diwylliant.culture@conwy.gov.uk](mailto:diwylliant.culture@conwy.gov.uk)

Contact us:

Phone: 01492 576089

Email:

[conwy.library@conwy.gov.uk](mailto:conwy.library@conwy.gov.uk) or  
[diwylliant.culture@conwy.gov.uk](mailto:diwylliant.culture@conwy.gov.uk):

Ariennir y Ganolfan Ddiwylliant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Llywodraeth Cymru (yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd), Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, Cronfa Cymunedol Gwynt y Môr mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Celfyddau Conwy, a Chyngor Celfyddau Cymru.

The Culture Centre is funded by the National Lottery Heritage Fund, Conwy County Borough Council, the Welsh Government (Museums, Archives, Libraries Division), the Welsh Government Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government, Gwynt y Môr Community Fund in partnership with Conwy Arts Trust, and Arts Council Wales.

## Canolfan Ddiwylliant **Conwy** Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County



## Caffi

Fel y bydd rhai ohonoch wedi gweld ar y cyfryngau cymdeithasol, dyfarnwyd contract y caffi i'r busnes lleol Deli Catering Ltd. Mae Bethan Rogerson a Sally Williams yn adnabyddus iawn am eu sgiliau pobi ac maent ar hyn o bryd yn cwblhau bwydlen o giniawau a byrbrydau blasus, fforddiadwy ac iach gan ddefnyddio cynhwysion lleol. Byddwn yn cyhoeddi eu bwydlen yn fuan, felly cadwch eich llygaid ar agor!

## Eisteddfod Conwy:



Fel un o'r digwyddiadau diwylliannol mwyaf yng Nghymru, roedd yr Eisteddfod yn lleoliad perffaith i hyrwyddo a dathlu prosiect y Ganolfan Ddiwylliant. Ar 3 Awst, rhoddwyd y cyfle i ymwelwyr â phabell Cyngor Conwy gwrdd â staff y Ganolfan Ddiwylliant a gwranddo ar gyflwyniad ynglŷn â'r prosiect yn ogystal a chael golwg ar ein casgliadau hel atgofion newydd sydd bellach ar gael i'w benthycu.

Diolch yn fawr iawn i'n partneriaid a'n cyfeillion yn yr amgueddfeydd am gydweithio gyda ni, ac edrychwn ymlaen at weithio'n agosach gyda nhw yn y dyfodol.

# Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County



## Sesiynau blasu:

Ers dechrau'r prosiect, rydym wedi darparu nifer syfrdanol o 110 sesiwn flasu gyda chyfanswm o 3,103 o unigolion (yn blant ac oedolion) yn cymryd rhan. Hoffem estyn ein diolch i'n partneriaid, ein artistiaid preswyl ac i bawb sydd wedi dod i'n gweld a'n cefnogi ni. Byddwn yn cael llawer mwy o sesiynau yn y dyfodol!



## Datgelu Llanrwst

Fel dilyniant i arddangosfa Datgelu Conwy, ymwelodd y tîm o bobl ifanc dan sylw â Llanrwst a'r cylch, gyda'r bwriad o gael lluniau o ddiwylliant, treftadaeth a harddwch naturiol yr ardal. Gyda chymorth Oriel Colwyn a staff Gwasanaeth Ieuencid Conwy, byddai 29 o'u lluniau gorau wedyn yn cael eu harddangos yn Llyfrgell Llanrwst i ymwelwyr eu gweld. Diolch yn fawr iawn i'r rhai a gymerodd ran; roedd eu gwaith yn wych ac edrychwn ymlaen i weld beth fydd yn digwydd iddyn nhw yn y dyfodol!

# Canolfan Ddiwylliant **Conwy** Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County



## Llysgennad Ifanc

Yn dilyn llwyddiant y prosiect Llysgennad Ifanc, mae rhagor o weithgareddau wedi eu trefnu i ddigwydd yn y cyfamser. Mae'r rhain yn cynnwys sesiwn goginio hanesyddol, yn defnyddio ryseitiau coginio o'r gorffennol i greu danteithion hanesyddol blasus, yn ogystal ag ymweld â safleoedd i ddysgu mwy am dreftadaeth chwarylyddol Conwy. Edrychwn ymlaen at glywed rhagor ganddynt yn y dyfodol!

## Codi ymwybyddiaeth drwy gyfryngau cymdeithasol:

Mae 500 o bobl bellach wedi hoffi ein Tudalen Facebook (Diwylliant Conwy Culture)! Diolch yn fawr i bawb sy'n ein dilyn ni! Peidiwch ag anghofio, os ydych chi'n adnabod unrhyw un sy'n dal i fyny â'r prosiect, gallan nhw ein dilyn ni i gael negeseuon rheolaidd am y newyddion diweddaraf ynghylch cynnydd y gwaith adeiladu, deunydd hyrwyddo ar gyfer gweithgareddau, a llawer mwy: felly lledaenwch y gair!

Hefyd, ar gyfer y rhai sydd ar Twitter, mae'n bleser gennym gyhoeddi lansiad ein tudalen Twitter newydd! Ewch i Twitter a dilynwch ni ar Diwylliant Conwy Culture i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect.



## Dawns i Bawb:

Mae Dawns i Bawb wedi bod yn arwain cyfres o weithdai a pherfformiadau dawns, gan ddefnyddio casgliadau atgofion y Ganolfan i helpu pobl sy'n byw gyda dementia a chlefyd Parkinson i adennill eu hunaniaeth. Mae'r prosiect hwn wedi cael croeso cynnes gan yr holl grwpiau cysylltiedig, gan gynnwys ymweliadau â safleoedd fel Llys Eilian, Bae Colwyn, ac wedi ein helpu i ddatblygu ar y syniad o gymuned ymwybodol o ddementia a chyfeillgar i ddementia o fewn y ganolfan ei hun.

# Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County



## Grŵp Menter Iaith Conwy:

Mae aelodau ein grŵp y Gymraeg wedi bod yn brysur am yr ychydig fisoedd diwethaf, gan ddod yn gyfarwydd ag arfer, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg. Mae'r holl sesiynau am ddim ac wedi eu lleoli yn adeilad presennol y llyfrgell yng nghanol y dref a bydd yn symud i'r ganolfan ddiwylliant gyda ni pan fyddwn yn agor.

Ar 11 Gorffennaf, rhoddodd y grŵp gynnig ar ddefnyddio'r ap CommonVoice; meddalwedd sy'n cael ei ddefnyddio i ddysgu cyfrifiaduron sut i ddeall ieithoedd ar gyfer rhaglenni testun-i-lais. Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg llafar i gyfrifiaduron.

Mae Grŵp y Gymraeg yn cwrdd ar y trydydd dydd lau bob mis. Disgwylir i'r cyfarfod nesaf ddigwydd ar 17 Hydref. Os oes gennych chi, neu rywun rydych yn ei adnabod ddiddordeb rhoi cynnig arni, cysylltwch â Llyfrgell Conwy am fwy o fanylion.

## Oriau Agor y Ganolfan Ddiwylliant:

Yn dilyn llawer o drafodaeth, Mae'n bleser gennym gyhoeddi dyddiad agor y Ganolfan Ddiwylliant! Bydd y Ganolfan Ddiwylliant yn agor i'r cyhoedd ar 9/12/19; gan gynnwys y llyfrgell, caffi, gofod celfyddydau ac arddangos a gardd y synhwyrâu. Bydd casgliadau'r Archif yn symud i'r adeilad newydd yn fuan yn y flwyddyn newydd a bydd yr Archif yn agor yn ystod gwanwyn 2020; cadwch lygad am ein newyddlen a thudalennau ar gyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf yn y cyfamser!

## Beth nesaf?

Byddwch yn barod am y wybodaeth ddiweddaraf am ein raglen weithgareddau gardd y synhwyrâu a fydd yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i bawb. Rydym hefyd yn gweithio ar ein rhaglen o weithgareddau, arddangosfeydd a digwyddiadau'r gwanwyn / haf yn y ganolfan a ledled y sir, felly cysylltwch â ni os oes gennych chi syniadau i'w rhannu!

# Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County



<b>Llyfrgell</b>	
Dydd Llun	9:30am – 5:00pm
Dydd Mawrth	10:00am – 7:00pm
Dydd Mercher	9:30am – 5:00pm
Dydd Iau	9:30am – 5:00pm
Dydd Gwener	9:30am – 5:00pm
Dydd Sadwrn	10:00am – 1:00pm
Dydd Sul	AR GAU
<b>Archifau</b>	
Dydd Llun	10:00am – 4:30pm
Dydd Mawrth	10:00am – 7:00pm
Dydd Mercher	10:00am – 4:30pm
Dydd Iau	10:00am – 4:30pm
Dydd Gwener	AR GAU
Dydd Sadwrn	
Dydd Sul	
<b>Caffi</b>	
Y Pasg tan Ddiwedd Medi	
Dydd Llun i ddydd Sadwrn	8.00am tan 6.00pm.
Dydd Sul	9.00am - 5.00pm.
Diwedd Medi tan y Pasg	
Dydd Llun i ddydd Sadwrn	9.00am - 5.00pm
Dydd Sul	10.00am – 4.00pm

Amserau agor swyddogol y Ganolfan Ddiwylliant pan fydd yn agor ar y 9/12/19.

# Canolfan Ddiwylliant **Conwy** Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County

